Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid cyfalaf addysg bellach ac addysg uwch 2025-26

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 26 Mawrth 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/11 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch<br>Penaethiaid sefydliadau addysg bellach |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Gareth Lanagan \| BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae’r cyhoeddiad hwn yn darparu manylion y sail ar gyfer dyrannu cyllid Cyfalaf yn ystod y flwyddyn yn 2025/26 i Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru, yr wybodaeth sy’n ofynnol gan sefydliadau a’n dull o fonitro. Mae’r cyllid hwn yn ymwneud â blwyddyn academaidd 2025/26.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd cyllid cyfalaf ychwanegol o £26m ar gael i'w ddyrannu ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Gellir dyrannu'r cyllid i wariant a ysgwyddir ym mlwyddyn academaidd 2025/26, yn ogystal ag ymrwymiadau ariannol a wneir erbyn 31 Gorffennaf 2026 a ategir gan gontractau neu archebion prynu. Ar gyfer colegau, bydd yr arian ychwanegol yn helpu i gynyddu cyfranogiad, yn enwedig mewn cyrsiau galwedigaethol er enghraifft drwy ehangu'r ddarpariaeth o ran gweithdai. Mae cyllid blaenorol wedi cael ei ddefnyddio gan brifysgolion i gefnogi prosiectau sy'n lleihau eu costau gweithredu ac yn gwella cyfleusterau i fyfyrwyr a staff. Ni ellir defnyddio cyllid cyfalaf i gefnogi costau staff yn uniongyrchol. Fodd bynnag, gall yr arbedion a gynhyrchir gan fuddsoddiadau cyfalaf ddod â rhywfaint o arbedion refeniw sy'n lleddfu pwysau costau. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cynnwys £13m ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch ac £13m ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach.

## Sail dyraniadau cyllid cyfalaf

2. Dyrennir y cyllid cyfalaf yn seiliedig ar ddull fformwläig ac fe bennwyd y dyraniadau yn seiliedig ar y canlynol:

   i. **Addysg uwch:** niferoedd myfyrwyr. Mae nifer y myfyrwyr mewn sefydliad yn ddirprwy rhesymol ar gyfer faint o ystâd a chyfleusterau y mae eu hangen. Daw'r niferoedd myfyrwyr a ddefnyddiwyd ar gyfer y dyraniad cychwynnol o ffigyrau Cyfwerth ag Amser Llawn (CagALI) Cofnod Myfyrwyr HESA ar gyfer pob dull, lefel a gwlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni yn seiliedig ar flwyddyn academaidd 2023/24. Cymhwyswyd isafswm dyraniad o £975,000. O ystyried ei hystâd gyfyngedig yng Nghymru, bydd trothwy isaf o 50% (£487,500) wedi'i bennu ar gyfer y Brifysgol Agored i gyfrannu at brosiectau a fydd o fudd i fyfyrwyr o Gymru. Mae hon yr un sail ag a ddefnyddiwyd i ddyrannu'r cyllid cyfalaf o £10m ym mis Hydref.

   i. **Addysg bellach:** Cyfanswm dyraniad 2025/26. Fe bennwyd y dyraniad amser llawn cychwynnol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 gan ddefnyddio gwybodaeth am gyfrif pennau dysgwyr a gwerth rhaglenni o'r data LLWR diweddaraf ac fe'i goleuwyd gan ddata o'r CYBLD. Dosbarthwyd y dyraniad cyfalaf ychwanegol ar sail pro rata, sy'n cyd-fynd â chyfran pob darparwr o gyfanswm y dyraniad, yn seiliedig ar gyfrif pennau dysgwyr.

## Dyraniadau

3. Darperir y dyraniadau canlyniadol ar gyfer pob sefydliad yn **Atodiad A** ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.

## Cadarnhau'r gallu i wario

4. O ystyried y ffrâm amser gyfyngedig i ddosbarthu'r cyllid hwn, yn lle cynlluniau wedi'u cwmpasu'n llawn rydym yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gadarnhau trwy anfon e-bost i BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru eu bod yn gallu defnyddio

eu dyraniad yn erbyn prosiectau perthnasol ym mlwyddyn academaidd 2025/26. Sylwer bod rhaid i'r rhain fod yn ddatblygiadau yng Nghymru (neu, yn achos digidol, prosiectau a fydd o fudd yn uniongyrchol i fyfyrwyr o Gymru).

5. Os yw sefydliad yn rhagweld na fydd yn gallu defnyddio ei ddyraniad yn llawn, dylai hysbysu Medr ar y cyfle cynharaf a bydd unrhyw arian gweddillol yn cael ei ailddyrannu i sefydliadau eraill trwy'r dull fformwläig a ddisgrifiwyd yn flaenorol.

## Canllawiau

6. Bydd canllawiau'n dilyn y cyhoeddiad hwn a'r rheiny'n amlinellu'r gwariant cymwys, ac felly hefyd dempled i adrodd ar wariant.

## Monitro blynyddol

7. Bydd ymarfer monitro'n cael ei gynnal yn 2026 ar ddyddiad addas i sicrhau bod y cyllid wedi cael ei ddefnyddio fel a fwriadwyd ac i ddarparu diweddariad ar yr effaith y mae'r buddsoddiad wedi'i chael.

8. Bydd disgwyl i sefydliadau ddarparu dadansoddiad o'r gwariant cyfalaf a manylu ar unrhyw brosiectau y mae'r cyllid wedi cyfrannu atynt.

## Amserlen

9. Bydd Medr yn trefnu bod yr arian a ddyrennir yn cael ei dalu i sefydliadau ar ôl cael y cadarnhad uchod ac ar 31 Mawrth 2026.

10. Bydd y broses fonitro flynyddol yn digwydd yn 2026 ar ddyddiad addas.

## Rhagor o wybodaeth

11. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

**Medr/26/11: Atodiad A**

## Modelu cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer addysg uwch yn 2025/26

| Sefydliad | Myfyrwyr CagALI 2023/24 | Dyraniadau pro rata i (£): CagALI | Canran a ddyrennir i bob sefydliad CagALI |
|---|---|---|---|
| Prifysgol De Cymru | 19,177 | £1,986,656.20 | 15% |
| Prifysgol Aberystwyth | | £975,000 | 8% |
| Prifysgol Bangor | | £975,000 | 8% |
| Prifysgol Caerdydd | 28,326 | £2,934,453.95 | 23% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 11,755 | £1,217,768.35 | 9% |
| Prifysgol Abertawe | 19,009 | £1,969,252.10 | 15% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 10,578 | £1,095,836.12 | 8% |
| Prifysgol Wrecsam | | £975,000 | 8% |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 8,408 | £871,033.28 | 7% |
| **Cyfanswm** | **97,253.00** | **£13,000,000.00** | **100%** |

**Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA 2023/24**

- Niferoedd Myfyrwyr nas defnyddiwyd yn y cyfrifiad: Poblogaeth gofrestru safonol HESA, pob dull, lefel a gwlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni.
- Ffigyrau CagALI a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad: Poblogaeth Sesiwn HESA, pob dull, lefel a gwlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni.
- Sylwer fod gwerthoedd CagALI wedi cael eu talgrynnu yn dilyn eu defnyddio yn y cyfrifiadau.

## Modelu cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer addysg bellach yn 2025/26

| Sefydliad | Myfyrwyr CagALI 2023/24 | Dyraniadau pro rata i (£): CagALI | Canran a ddyrennir i bob sefydliad CagALI |
|---|---|---|---|
| Coleg Penybont | 21,257,267 | £647,440.95 | 4.98% |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 51,838,831 | £1,578,875.68 | 12.15% |
| Coleg Cambria | 51,831,161 | £1,578,642.08 | 12.14% |
| Coleg Gwent | 59,626,840 | £1,816,078.14 | 13.97% |
| Coleg Sir Gâr | 28,960,384 | £882,057.82 | 6.79% |
| Coleg y Cymoedd | 44,337,120 | £1,350,393.11 | 10.39% |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 36,295,608 | £1,105,469.62 | 8.50% |
| Grŵp Llandrillo Menai | 50,512,285 | £1,538,472.55 | 11.83% |
| Grŵp NPTC | 34,051,497 | £1,037,119.85 | 7.98% |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 13,503,613 | £411,284.86 | 3.16% |
| Coleg Sir Benfro | 16,837,610 | £512,829.72 | 3.94% |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 9,656,971 | £294,126.17 | 2.26% |
| Addysg Oedolion Cymru (ALW) | 8,116,566 | £247,209.45 | 1.90% |
| **Cyfanswm** | **426,825,753** | **£13,000,000.00** | **100%** |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government